

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaef a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Ionawr 12, 2021 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans, Carwyn Evans, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gethin Williams, Llinos Williams a John Hughes. Hefyd Mr George Frangeskides, Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, ac Elfed ap Gomer (wedi i Mr George Frangeskides roi ei adroddiad).

2. Adroddiad gan Mr George Frangeskides, Cadeirydd Alba Mineral Resources plc, Cyfarwyddwr Gold Mines of Wales Limited, ac yn berchennog a gweithiwr Clogau-St David's Gold Mine

Cafwyd gwybodaeth ddiweddaraf o weithgareddau Gwaith Aur Clogau. Ar hyn o bryd does dim gwaith mawr yn cael ei wneud. Y gwaith sy'n cael ei wneud ydy gwaith ymchwil ac arbrofi trwy drilio ar wyneb y tir ac o dan ddaear ac agor ffosydd i gael samplau o'r tir a'r graig. O'r ymchwil sydd wedi cael ei wneud mae'n edrych yn boddhaol bydd aur ar gael. Roedd digwyddiad anffortunos gyda chyflenwad dŵr ond wedi ei arbrofi nid oedd wedi ei llygru. Mae'r gwaith yn cael ei wneud i reolau perthnasol ac mae cyd-weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir y Fflint. Mae'r cwmni yn cyd-weithio gyda'r gymuned. Mae'n debygol bydd gwaith cloddio am aur yn digwydd mewn deg mlynedd. Bydd y gwaith yn cael ei wneud tanddaearol a ni fydd gwastraff yn weledig. Mae disgwyl bydd ansawdd yr aur o'r safon uchaf. Mae posibilrwydd bydd bobl ifanc yr ardal yn cael cyfle profiad gwaith gyda'r cwmni. Wedi'r 'lockdown' Covid-19 dod i ben bydd cyfle i ni ymweld y gwaith. Bydd y cwmni yn gwneud gwaith tebyg yn Gwaith Aur Gwynfynydd.

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 8, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cyfarfod Rhagfyr 8, 2020

Eitem 4. Eitem 9.a. Derbyniwyd llythyr ateb (9/12/2020) oddi wrth BT yn rhoi gwybod mae'r mater wedi creu dryswch. Maent am barhau gyda'r contract efo'r ciosg dangoswyd yn y llun.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 12, 2021

Eitem 4. Eitem 4. Eitem 5.a. Derbyniwyd 11 o lythyrau oddi wrth drigolion Bontddu yn cefnogi agor y Toiledau.

Gwybodaeth am y Toiledau:

Daeth y brydles i ben Awst 27, 2018; ar hyn o bryd mae ar 'holdng over' nes bydd un newydd mewn llaw. Roedd y brydles am 20 mlynedd gyda rhent o £1 y flwyddyn.

Mae'r Toiledau wedi bod ar gau ers mis Hydref 1, 2018.

Gohiriwyd talu'r dreth Cyngor Gwynedd ar Ionawr 14, 2020.

Defnyddio ffigyrau 2017 – 2018 i gael Gwariant ar y toiledau:

Treth – Cyngor Gwynedd: £227.05 y flwyddyn

Gofalwr – Janet Edwards: £914.16 y flwyddyn

Trwsio'r toiledau – Trebor Davies: £84.60

Cyflenwad dŵr – Dŵr Cymru: £264.38 y flwyddyn

Cyfanswm: £1,490.19 y flwyddyn

Penderfynwyd trafod y mater pryd fydd adroddiad ar yr adeilad wedi cael ei baratoi gan Cyngor Gwynedd.

Eitem 9.f. Llythyr (18/12/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ail rybudd Gwaharddiad Defnydd Dros Dro llwybr cyhoeddus rhif 26 a llwybr caniatool yng nghymuned Llanelltyd am y cyfnod o 1/1/2021 am 6 mis. Mae'r gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch yn ystod cyfnod clirio coed.

6. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Siec am £1,180.00 oddi wrth Aftercare Funeral Services (14/12/2020). Taliad at Christopher Edward Leeds – claddedigaeth cyntaf £700.00 + hawl claddu £480.00.

c. Llythyr (4/1/2021) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 12, 2021

ch. Llythyr (5/1/2021) oddi wrth Elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

d. Bil (10/1/2021) am £610.00 (£500 llafur + £50 torri trwy graig + £60 llogi pwmp dŵr) oddi wrth Mr John A. Owen am agor bedd dwbl ar gyfer gwasanaeth ar 18/12/2020.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2020: £12,150.22. (29/12/2019: £10,605.20).

7. Archwilio

a. Llythyr (11/12/2020) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi amserlen ar gyfer trefniadau archwilio newydd y cyngorau. I'r Cyngor bydd archwilio 2020/21 a 2021/22 yn Sylfaenol ac archwilio 2022/23 yn Llawn.

8. Mynwent Llanelltyd

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio. NP5/65/355B. Codi adeilad amaethyddol. Tyddyn Du, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi egwyddor a'r angen am sied amaethyddol. Er hynny, mae lleoliad yr adeilad mewn lle amlwg iawn o'r ochr y ffordd fawr ac mi ddylai'r ymgeisydd ystyried cael lle llai amlwg. (24/12/2020).

10. Gohebiaeth

a. E-bost (12/12/2020) oddi wrth Debra Kojs drwy law Gareth Ellis. Roedd yn bryderus am oryru wrth Ysgol Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Heddlu Gogledd Cymru.

b. Llythyr (15/12/2020) oddi wrth Carwyn Evans yn rhoi gwybod mi fydd yn ymddiswyddo o'r Cyngor yn dilyn cyfarfod mis Ionawr.

Diolchwyd Carwyn am ei wasanaeth fel Cyngorydd i'r Cyngor a dymunwyd yn dda iddo yn ei ardal a'i gartref newydd.

c. Llythyr (17/12/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ionawr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

11. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

- a. Cafwyd cyfarfod yn Borthwnog gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â dŵr yn codi yn raddol dros y blynyddol. Mae Cyngor Gwynedd am roi sylw i'r mater.
- b. Mae Cyngor Gwynedd am roi sylw i sefyllfa tai y sir gyda thai yn mynd yn dai haf / ail gartrefi ac o afael pobl leol.

Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i'r aelodau.

- c. Mae am gael gair â Chwnstabl lleol, PC Gareth Jones, ynglŷn traffic yn oryru wrth Ysgol Llanelltyd.

12. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
